



**I'w ryddhau ar unwaith**

## **Wythnos ddathlu newydd i amlygu elusennau Cymru**

**Gwirfoddoli, rhoi, derbyn yr her 'Cot pwy yw'r siaced hon?' ... dyma dim ond rhai o'r ffyrdd y gall pobl ar hyd a lled Cymru gymryd rhan yn yr Wythnos Elusennau Cymru newydd.**

Mae wythnos ymwybyddiaeth newydd, [Wythnos Elusennau Cymru](#), wedi'i chyhoeddi a bydd yn cymryd lle rhwng 15-19 Tachwedd 2021.

Mae Wythnos Elusennau Cymru yn gwahodd pobl i gymryd rhan a dathlu'r elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a'r gwirfoddolwyr sy'n cyfoethogi bywydau pob un ohonom ni yma yng Nghymru.

Bydd yr wythnos yn arddangos y gwahaniaeth anhygoel y mae grwpiau nid-er-elw o bob lliw a llun yn eu gwneud i fywydau pobl ledled Cymru. Mae'r trefnwyr, CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan, i adrodd eu storïau a rhoi diolch i'w holl elusennau yng Nghymru.

Mae Wythnos Elusennau Cymru hefyd yn herio pobl i dderbyn yr her codi arian newydd, '**Cot pwy yw'r siaced hon?**'. Mae aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hannog i godi arian at achos sy'n agos at eu calonnau drwy ffilmio eu hunain yn gwisgo cymaint o eitemau o ddillad ag y gallant

mewn 60 eiliad. Bydd yr ymdrechion yn ymddangos ar yr hashnod #WythnosElusennauCymru.

## **FFYRDD O GYMRYD RHAN YN WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU**

### **1. Soniwch am elusen neu grŵp gwirfoddol yng nghymru ar gyfryngau cymdeithasol**

Oes gennych chi hoff elusen sy'n agos at eich calon? Soniwch amdany'n nhw ar blatfform cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn eu hoffi a chofiwch ddefnyddio #WythnosElusennauCymru. Mae gennym ni wahanol thema bob dydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn ni'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar sut mae elusennau, grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth bob dydd ledled Cymru. Cymerwch ran drwy ddweud eich stori wrthym ni.

### **2. Rhoi**

Wythnos Elusennau Cymru yw'r adeg berffaith i gyflwyno rhodd i'ch hoff elusen. Cofiwch, nid oes raid iddo fod yn rhodd ariannol – gallai fod yn fag o ddillad neu eitemau eraill i'ch siop elusen leol, neu gallech hyd yn oed roi ychydig o'ch amser drwy wirfoddoli (gweler isod). Gallwch chi hefyd gymryd rhan yn ein her 'Cot pwy yw'r siaced hon?'

### **3. Cofrestrwch i fod yn wirfoddolwr**

Oes gennych chi rywfaint o amser rhydd ac yn teimlo y gallech chi ei ddefnyddio i wneud ychydig o ddaioni? Beth am gofrestru i fod yn wirfoddolwr? Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolwr, mae [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net) yn lle da i ddechrau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [wythnoselusennau.cymru](http://wythnoselusennau.cymru).

Wedi'i threfnu gan CGGC, cefnogir Wythnos Elusennau Cymru gan ITV Cymru Wales.

## **Nodiadau i'r golygyddion**

- Cynhelir Wythnos Elusennau Cymru rhwng 15-19 Tachwedd 2021
- I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Simon Dowling – [sdowling@wcva.cymru](mailto:sdowling@wcva.cymru) / 02920 436596
- Bydd CGGC yn cyhoeddi cynnwys ar fideos a lluniau drwy gydol yr wythnos
- Yn [wythnoselusennau.cymru](http://wythnoselusennau.cymru) gallwch chi lawrlwytho pecyn ymgyrchu. Yn ystod yr wythnos, bydd y safle yn arddangos oriel luniau o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydyn ni'n bodoli er mwyn galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd

*Er mwyn i ni allu hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddarau ein cysylltiadau yn y wasg ar newyddion perthnasol gan CGGC, mae eich gwybodaeth wedi'i chofnodi ar ein cronfa dda. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar gael ar wefan CGGC, i gael rhagor o wybodaeth am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy sy'n gallu cael gafael ynddi, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.*

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa: Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dunballs, Caerdydd CF10 5BF (Swyddfeydd hefyd yn Abergele ac Aberystwyth)  
Ffôn: 0300 111 0124  
E-bost: [help@wcva.cymru](mailto:help@wcva.cymru)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Elusen gofrestrdig 218093  
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299  
Cofrestrwyd yng Nghymru